NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Radiotherapi epidermol gan ddefnyddio pâst rhenium-188 ar gyfer canser y croen nad yw'n felanoma

13 Mawrth 2024

Dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil y gellir rhoi'r driniaeth hon. Mae hyn am nad oes digon o dystiolaeth ynglŷn â pha mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio na pha mor ddiogel ydyw.

Dylai eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol siarad â chi am yr ymchwil.

Mae canser y croen nad yw'n felanoma yn datblygu'n araf dros fisoedd neu flynyddoedd ar haenau uchaf (epidermol) y croen. Yn y driniaeth hon, rhoddir ffoil diogelu ar y canser. Yna, caiff y pâst ymbelydrol (pâst rhenium-188) ei daenu ar ben y ffoil i gyflwyno ymbelydredd i'r canser (radiotherapi). Caiff y ffoil a'r pâst eu gadael yn eu lle am ryw 30 i 180 o funudau fel arfer. Y nod yw dinistrio'r celloedd canser, gyda chelloedd iach newydd yn eu disodli'n araf.

## A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylech fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau am eich gofal.

Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio risgiau a manteision y driniaeth hon ac egluro sut y'i gwneir. Dylai drafod eich opsiynau a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Dylai gynnig rhagor o wybodaeth i chi am y driniaeth. Gellir cynnwys eich teulu neu'ch gofalwyr yn y broses os hoffech hynny, neu os bydd angen eu cynnwys.

Gofynnir i chi benderfynu a ydych yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dysgwch ragor am roi cydsyniad i driniaethau ar wefan y GIG.

## Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt

- Faint o apwyntiadau y bydd eu hangen arnaf?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?

- A fydd yn rhaid i mi aros yn yr ysbyty?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?

## Gwybodaeth a chymorth

Gall tudalen we y GIG ar ganser y croen nad yw'n felanoma fod yn lle da i gael gwybod mwy.

- Mae gwybodaeth NICE am ganllawiau IechydTech yn esbonio beth yw IechydTech a sut rydym yn eu hasesu.
- Mae gwybodaeth NICE am argymhellion ar gyfer IechydTech yn esbonio beth mae dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil yn ei olygu.

Gall Skcin (0115 9819116) roi cyngor a chymorth i chi.

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

ISBN: 978-1-4731-8969-0